

# Is-ddeddfau Cwn a Diogelwch Traeth


Rydym ag eisiau ichi gael hwyl ar eintraethau hyfryd, ond rydym ag eisiau ichi fod yn ddiogel hefyd. Darllenwch yr holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y daflen hon os gwelwch yn dda.

- Nofiwch rhwng y baneri coch a melyn
- Cadwch olwg manwl ar blant bob amser
- Gofynnwch i'r achubwyr bywydau am gyngor
- Cadwch draw o adeileddau o waith dyn
- Darllenwch arwyddion diogelwch
- Peidiwch byth â nofio ar eich pen eich hun
- Rhowch eich llaw yn yr awyr a gwaeddwch am help os ewch chi i drafferth
- Os gwelwch chi rywun mewn trafferth, dywedwch wrth achubwr bywydau. Os na ellwch chi weld achubwr bywydau, ffoniwch 999 a gofyn am Wylwr y Glannau



[www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk)

Y Rhyl



## CYFYNGIADAU AR GWN

Rhwng y 1<sup>af</sup> Mai a'r 30<sup>ain</sup> Medi bob blwyddyn, mae cyfyngiadau ar gŵn ar rai rhannau o'r traeth yn y Rhyl a Phrestatyn.

Dyw pawb ddim yn hoff o gn, felly yn ystod yr adegau prysuraf o'r flwyddyn mae gennym ardaloedd â chyfyngiadau ar gn ar ein traethau mwyaf poblogaidd. Peidiwch â phoeni chwaith, mae'r Rhyl a Phrestatyn yn dal i fod â digonedd o draeth i chi a'ch ci fwynhau rhedeg ar y tywod!

## Yr Ardaloedd Ymarfer Cŵn:

Y rhan o'r traeth o Old Golf Road, Y Rhyl tua'r dwyrain at Erddi Gyl y Ffrith, Prestatyn a'r ardal i'r dwyrain o'r Clwb Hwyllo ar Draeth Barkby, Prestatyn.

## Ardaloedd â chyfyngiadau ar gŵn:

Y rhannau o'r traeth o Sydenham Avenue, Y Rhyl tua'r dwyrain at Old Golf Road yn Y Rhyl. Holl rannau'r traeth o Erddi Gyl y Ffrith, Prestatyn tua'r dwyrain, at Glwb Hwyllo Prestatyn, Traeth Barkby, Prestatyn.



### PARTH ACHUBWYR BYWYDAU

Mae baner goch a melyn yn nodi ardal sy'n cael ei phatrolio gan achubwyr bywydau. Rydym yn annog pobl i nofio yn y parth gydag achubwyr bywydau rhwng y baneri.



### PARTH CHWARAEON DWR

Mae baneri sgwarog yn nodi ardaloedd a ddefnyddir gan gychod a jetsgis. Peidiwch â nofio yma.



### PERYGL

Mae baner goch yn golygu perygl. Peidiwch â mynd i'r dŵr os gwelwch chi'r faner yma'n hedfan



### CYFEIRIAD Y GWYNT

Mae hosan wynt oren yn golygu bod y gwynt yn beryglus. Peidiwch â defnyddio dingis pwmpiadwy os yw'r hosan yn pwyntio allan at y môr.

Prestatyn



## PERYGLON O WAITH DYN

Gall pierau, grwynau, waliau harbwr a pheryglon eraill o waith dyn fod yn beryglus gan eu bod yn creu amodau cyfnewidiol ac annisgwyl o'u cwmpas. Gall cerhyntau terfol, sugnau, tonnau mawr a newidiadau dramatig yn nyfnder y dŵr i gyd fod yn beryglus o gwmpas adeileddau o waith dyn. Cadwch draw oddi wrth unrhyw un o'r rhain os gwelwch yn dda.

## DINGIS PWMPIADWY

Gall dingis pwmpiadwy fod yn beryglus iawn ar y traeth ac rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn eu gadael adref. Gall awel ysgafn chwythu dingi pwmpiadwy allan i'r môr yn gyflym iawn. Os byddwch yn penderfynu defnyddio dingi pwmpiadwy, gofawch fod plant o fewn cyrraedd rhwydd, ac os oes modd dylai'r dingi pwmpiadwy fod yn sownd wrth linyr y mae oedolyn ar y lan yn ei ddal. Os cewch chi eich chwythu allan i'r môr, peidiwch â cheisio nofio'n ôl i'r lan, gwnewch arwydd am help trwy godi llaw a gweiddi.

## CERRYNT TERFOL

Sianel o ddŵr gyda cherrynt cryf sy'n gallu eich llusgo allan i'r môr agored yn gyflym iawn yw cerrynt terfol. Maent yn beryglus iawn a gallant fod yn anodd eu gweld. Gall dw'r afliwiedig, brigwyn, toriad ym mrig y don, malurion yn arnofio allan i'r môr neu ddarn crychdonnog mewn môrtawel i gyd fod yn arwydd o gerrynt terfol.

Os teimlwch chi'ch hun wedi'ch dal mewn cerrynt terfol, peidiwch â chynhyrfu. Gwnewch arwydd am help o'r traeth trwy godi'ch llaw a nofiwch yn gyfochrog i'r traeth nes byddwch allan o'r cerrynt. **PEIDIWCH** â cheisio nofio'n uniongyrchol tuag at y lan yn erbyn y cerrynt.

